OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2288

## Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2010

## RHAN 1

Rhagarweiniol

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod bwyd" yr un ystyr ag sydd i "*food authority*" yn adran 5(1A) o'r Ddeddf ond nid yw'n cynnwys awdurdod iechyd porthladd;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*"), o ran unrhyw ddosbarth iechyd porthladd a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yw awdurdod iechyd porthladd ar gyfer y dosbarth hwnnw a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf honno;

ystyr "caen cellwlos atgynyrchiedig" ("*regenerated cellulose film*") yw deunydd haenen denau a gafwyd o gellwlos a goethwyd sy'n deillio o bren neu gotwm nas ailgylchwyd, gydag ychwanegiad o sylweddau addas neu beidio, naill ai yn y màs neu ar un arwyneb neu'r ddau arwyneb, ond nad yw'n cynnwys casinau synthetig o gellwlos atgynyrchiedig;

ystyr "Cyfarwyddeb 2002/72/EC" ("*Directive 2002/72/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/72/EC sy'n ymwneud â deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd(**2**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2007/42/EC" ("*Directive 2007/42/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2007/42/EC sy'n ymwneud â deunyddiau ac eitemau a wnaed o gaen cellwlos atgynyrchiedig ac y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd(**3**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys cynnig neu roi nwydd ar ddangos i'w werthu, neu fod mewn meddiant arno er mwyn ei werthu, a dylid dehongli "gwerthiant" ("sale") yn unol â hynny;

ystyr "mewnforio" ("*import*") yw mewnforio yn ystod busnes, o fan heblaw Gwladwriaeth o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ;

mae "paratoad" ("*preparation*") yn cynnwys gweithgynhyrchu ac unrhyw ffurf ar driniaeth neu broses, a dylid dehongli "paratoi" ("*prepare*") yn unol â hynny;

(**1**) 1984 t.22.

(**2**) OJ Rhif L220, 15.8.2002, t.18. Cafodd y Gyfarwyddeb hon ei chywiro gan gorigendwm (OJ Rhif L39, 13.2.2003, t.1), a chafodd ei diwygio gan Gyfarwyddebau'r Comisiwn 2004/1/EC (OJ Rhif L7, 13.1.2004, t.45), 2004/19/EC (OJ Rhif L71, 10.3.2004, t.8), 2005/79/EC (OJ Rhif L302, 19.11.2005, t.35), 2007/19/EC (a gyhoeddwyd mewn ffurf ddiwygiedig a chywiriedig yn OJ Rhif L97, 12.4.2007, t.50), 2008/39/EC (OJ Rhif L63, 7.3.2008, t.6) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 975/2009 (OJ Rhif L274, 20.10.2009, t.3).

(**3**) OJ Rhif L172, 30.6.2007, t.71. Yr oedd y Gyfarwyddeb hon yn diddymu ac yn cydgrynhoi a hynny heb ddiwygio pellach Gyfarwyddeb y Comisiwn 93/10/EEC fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/14/EC.

ystyr “plastigion” (“*plastics*”) yw'r deunyddiau a'r eitemau hynny y mae Cyfarwyddeb 2002/72/EC yn gymwys iddynt;

ystyr “Rheoliad 1935/2004” (“*Regulation 1935/2004*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 1935/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd, ac sy'n diddymu Cyfarwyddebau 80/590/EEC ac 89/109/EEC(**4**);

ystyr “Rheoliad 2023/2006” (“*Regulation 2023/2006*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2023/2006 ar arfer gweithgynhyrchu da ar gyfer deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd(**5**);

ystyr “Rheoliad 450/2009” (“*Regulation 450/2009*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 450/2009 ar ddeunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd(**6**);

ystyr “Rheoliadau 2009” (“*the 2009 Regulations*”) yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2009(**7**); ac

ystyr “swyddog awdurdodedig” (“*authorised officer*”) yw unrhyw berson, boed yn swyddog i'r awdurdod neu beidio, sydd â chyfrifoldeb dros weithredu a gorfodi o dan reoliad 14, sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod hwnnw i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad 1935/2004, Rheoliad 2023/2006 neu Reoliad 450/2009 yr un ystyron yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn y Rheoliadau hynny.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad at Reoliad 2023/2006 neu at Atodiad i Gyfarwyddeb 2002/72/EC neu i Gyfarwyddeb 2007/42/EC yn gyfeiriad at y Rheoliad hwnnw neu'r Atodiad hwnnw fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd.

(**4**) OJ Rhif L338, 13.11.2004, t.4, a ddiwygiwyd gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).
(**5**) OJ Rhif L384, 29.12.2006, t.75, a ddiwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 282/2008 (OJ Rhif L86, 28.3.2008, t.9).
(**6**) OJ Rhif L135, 30.5.2009, t.3.
(**7**) O.S. 2009/481 (Cy. 49).